Pleidleisiwch

Eich tri chyfle i bleidleisio yn 2011

Fersiwn hawdd ei darllen

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y pethau y byddwn yn siarad amdanyn yn y llyfryn hwn

1. Y Cynulliad Cenedlaethol

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn grŵp o chwe deg o bobl. Maen nhw'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru.

Eu gwaith yw siarad dros y bobl sy'n byw yn eu rhan nhw o Gymru a'u helpu gyda'r pethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Llywodraeth yng Nghymru.

Maent yn gwneud pethau fel

- gwneud deddfau i Gymru
- gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith yn dda.

2. Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud pethau fel

- gwneud penderfyniadau a rheolau i Gymru
- dweud pa ddeddfau newydd y mae'n meddwl sydd eu hangen ar Gymru.

3. Y Llywodraeth yn Llundain (Llywodraeth y Deyrnas Unedig)

Mae Llywodraeth y DU yn Llundain, Lloegr. Mae'n gwneud rhai o'r deddfau a'r penderfyniadau am Gymru.

Eich tri chyfle i bleidleisio



Mae'r daflen hon yn dweud eich bod yn cael pleidleisio dair gwaith yn y flwyddyn 2011.

Beth yw pleidleisio?

Pleidleisio yw dweud beth yr hoffech ei weld yn digwydd.

Er enghraifft, gallwch bleidleisio i ddweud pwy hoffech chi gael i wneud penderfyniadau mawr am eich gwlad a'ch ardal chi.

Rhaid i chi fod yn **18 mlwydd oed** neu fwy i bleidleisio

Nawr gallwch ddod i wybod mwy am y **tri** pheth y gallwch bleidleisio drostyn nhw.

1.Dewis pwy sydd i fod yn Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol

Ar 5 Mai 2011 gallwch bleidleisio **dros bwy fydd yn dod i'r Cynulliad Cenedlaethol**

Gallwch ddod i wybod mwy am y Cynulliad Cenedlaethol ar dudalen 2.

Mae **dau** o bobl i bleidleisio drostyn nhw

1. y person o'ch ardal chi rydych am ei weld yn y Cynulliad Cenedlaethol.

   Enw'r person hwn yw
   Aelod Cynulliad eich Etholaeth

2. y person sy'n byw yn yr un rhan o Gymru â chi, rydych am ei weld yn y Cynulliad Cenedlaethol

   Enw'r person hwn yw eich
   Aelod Cynulliad Rhanbarthol

Gallwch ddewis o restr o bobl.

Sut i gael gwybod pwy yw eich Aelodau chi o'r Cynulliad ar hyn o bryd

1. Ewch i'r wefan hon

www.cynulliadcymru.org/memhome/member-search.htm



Teipiwch eich côd post yn y blwch **chwilio gyda'ch côd post** a chliciwch ar **cyflwyno**.

Bydd hyn yn dweud wrthych pwy yw Aelodau'r Cynulliad dros

- eich ardal leol
  (Dyma **Aelod Cynulliad eich Etholaeth)**

- y rhan o Gymru rydych yn byw ynddi
  (Dyma eich **Aelodau Cynulliad Rhanbarthol)**

2. Neu gallwch ein ffonio ar **0845 010 5500** i gael gwybod.

2. Gwneud deddfau ar gyfer Cymru

Ar 3 Mawrth, gallwch hefyd bleidleisio i ddweud a ydych yn teimlo y dylai Cymru fedru gwneud ei deddfau ei hun heb ofyn i'r Llywodraeth yn Llundain yn gyntaf. .

Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, gall Cymru wneud ei deddfau ei hun am ddau ddeg o wahanol bethau. Er enghraifft:

- bwyd
- iechyd
- tai
- trafnidiaeth

Ond dydy Cymru ddim yn gallu gwneud yr **holl** ddeddfau yr hoffai eu gwneud am y pethau hyn.

Weithiau mae'n rhaid i Gymru ofyn i'r Llywodraeth yn Llundain yn gyntaf a yw'n iawn gwneud y deddfau hynny.

Beth y gallwch bleidleisio drosto.

Gallwch bleidleisio i ddweud:

1. eich bod am i bethau aros fel y maen nhw. Mae hyn yn meddwl eich bod yn credu y dylai Cymru, gyda rhai deddfau, ofyn i'r Llywodraeth yn Llundain gyntaf os yw'n iawn.

2. neu rydych am i Gymru allu gwneud deddfau am y dau ddeg gwahanol beth heb ofyn i'r Llywodraeth yn Llundain gyntaf.

3. Ffordd newydd o bleidleisio dros bobl yn y Senedd yn Llundain

Mae'r Senedd yn Llundain yn gweithio gyda'r Llywodraeth yn Llundain. Mae'n gwneud pethau fel

- gwneud yn siŵr bod y Llywodraeth yn gwneud gwaith da
- gwneud deddfau newydd.

Ym mis Mai 2011 bydd Llywodraeth y DU yn Llundain yn gofyn i bobl a ydynt am gael ffordd newydd o ddewis pwy sy'n gweithio i'r Senedd yn Llundain.

Gelwir y ffordd newydd hon yn **system bleidleisio arall**.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn defnyddio eich tair pleidlais yn 2011 fel y gallwch ddweud beth rydych chi'n feddwl ddylai ddigwydd.

I gael mwy o wybodaeth ewch i'r wefan **www.cynulliadcymru.org/vote2011**